

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub

## Adroddiad Cynnydd 2019

© Hawlfraint y Goron Ionawr 2020
WG39675 ISBN digidol 978-1-83933-675-1

## Rhagair



Rwy’n falch iawn o gyhoeddi’r adroddiad hwn ar ein Hawdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Yn ffurfiol, ac fel sy'n ofynnol o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, mae'n nodi i ba raddau y mae'r Awdurdodau wedi gweithredu’n unol â'n Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Mewn gwirionedd, mae hynny'n golygu ei fod yn disgrifio pa mor dda y mae ein Gwasanaethau Tân ac Achub wedi perfformio wrth ddilyn ein hamcanion i gadw pobl a chymunedau yng Nghymru yn ddiogel.

At ei gilydd, mae hon yn stori am gyflawniad sylweddol. Mae nifer yr achosion o danau a'r rhai a anafwyd mewn tanau yn gostwng yn y tymor hir. Mae llawer o resymau am hyn, ond nid oes amheuaeth gennyf mai un o'r pwysicaf yw'r gwaith y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i atal tanau ac ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fyddant yn digwydd. Mae'n record y mae pawb sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth yn haeddiannol falch ohoni.

Mae fy adroddiad yn nodi rhai meysydd lle mae angen i'r Awdurdodau weithredu. Mae dadansoddiad manwl o ddata am ledaeniad tanau mewn anheddau a'r anafusion maent yn eu hachosi yn datgelu rhai pryderon y mae angen eu harchwilio ymhellach; ac mae'r Gwasanaeth yn dal i dreulio gormod o amser yn ymateb i alwadau diangen. Gallent wneud mwy i gymharu eu costau ag eraill ac i nodi unrhyw gyfle i arbed costau. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn gwanhau’r neges gadarnhaol gyffredinol.

Yn wir, un o'r heriau mwyaf y mae'r Gwasanaeth yn ei hwynebu yw osgoi dioddef yn sgil ei lwyddiant ei hun. Mae llai o danau yn golygu bod lefelau gweithgarwch yn is; ac yng nghefn gwlad Cymru mae'r duedd honno'n dechrau codi cwestiynau am gynaliadwyedd y System ar Ddyletswydd yn ôl Galw y mae’r Gwasanaeth yn dibynnu arni yn yr ardaloedd hyn. Ni allwn adael i rai o'n gweision cyhoeddus mwyaf gwerthfawr a dibynadwy gael eu tanddefnyddio yn y modd hwn. Felly'r dasg ar gyfer y dyfodol yw ehangu rôl y Gwasanaeth, mewn ffyrdd sy'n ategu'r sgiliau, y galluoedd, y gwerthoedd a'r parch sydd gan ddiffoddwyr tân yn barod. Bydd hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r Gwasanaeth ac yn darparu gwasanaeth ehangach a mwy gwerthfawr i bobl Cymru. Mae heriau posibl o ran cyflawni'r nod hwn, ond mae'n un a fydd yn cael cefnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.

**Hannah Blythyn AC**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Llywodraeth Cymru**

## Ffynonellau data

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud defnydd helaeth o ddata am wasanaethau tân ac achub yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Oni nodir yn wahanol, dyma'r ffynonellau data:

- **Cymru:** StatsCymru, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Community-Safety
- **Lloegr:** Ystadegau tân Llywodraeth y Deyrnas Unedig, www.gov.uk/government/statistical-data-sets/fire-statistics-data-tables
- **Yr Alban:** Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban, https://www.firescotland.gov.uk/about-us/fire-and-rescue-statistics.aspx

Credwn fod data yn ddefnyddiol wrth egluro i ba raddau mae Awdurdodau Cymru wedi gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. I roi hynny yn ei gyd-destun, yn y rhan fwyaf o achosion rydym hefyd yn defnyddio data i edrych yn ôl am sawl blwyddyn cyn i'r Fframwaith ddod i rym. Fodd bynnag, mae dau gyfyngiad pwysig i hyn.

Yn gyntaf, mae'n gyffredin wrth gwrs defnyddio data i fesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Gall cyfraddau pasio arholiadau neu amseroedd aros am driniaeth ysbyty fod yn adlewyrchiad rhesymol o ansawdd addysg neu wasanaethau iechyd, er enghraifft. Fodd bynnag, mae hyn yn llai gwir am y gwasanaethau brys. Mae llawer o'r data yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu digwyddiadau sydd y tu hwnt i reolaeth Awdurdodau. Mae ysgolion ac ysbytai yn gwybod faint o ddisgyblion neu gleifion sydd ganddyn nhw, ond ni all unrhyw un ragweld pryd a ble gallai tanau ddigwydd, nac a allai pobl gael eu hanafu neu eu lladd. Ar ben hynny, mae llawer o elfennau'n dylanwadu ar y risg gyffredinol o dân - fel ysmygu, heneiddio a phatrymau tywydd - sydd unwaith eto'n ffactorau na all Awdurdodau eu rheoli yn uniongyrchol. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o'r data yn yr adroddiad hwn yn mesur perfformiad Awdurdodau, nac ansawdd eu gwasanaethau, yn uniongyrchol nac yn unigol; dim ond tueddiadau eang y gallant eu dangos ac, o bosibl, i ba raddau mae Awdurdodau wedi cyfrannu atynt.

Yn ail, rydym yn gwneud defnydd eang o ddata cymharol ar gyfer Lloegr a'r Alban[1], i roi'r sefyllfa yng Nghymru yn ei chyd-destun. Gellir cymharu'r data hyn yn uniongyrchol, fel arfer oherwydd eu bod yn dod o System Cofnodi Digwyddiadau'r Gwasanaeth Tân, a ddefnyddir yn gyffredinol ledled y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae maint Cymru yn golygu yn anochel bod gennym lawer llai o danau ac anafusion na'r Alban ac (yn enwedig) Lloegr. Felly mae data ar gyfer Cymru yn tueddu i fod yn fwy cyfnewidiol - mae ychydig o danau neu anafusion yn creu newid cymesur mwy o faint. Mae hyn yn golygu bod angen dehongli gwahaniaethau rhwng y gwledydd yn ofalus, ac yn aml dim ond dros gyfnod o sawl blwyddyn mae tueddiadau ystyrlon yn ymddangos.

Ar y cyfan, ni ddylid cymryd y data a ddefnyddiwyd gennym yn yr adroddiad hwn yn arwynebol i 'brofi' bod yr Awdurdodau yn gwneud yn dda neu'n wael - neu'n well neu'n waeth na'u cymheiriaid mewn mannau eraill. Lle credwn fod y data'n adlewyrchu

[1] Mae data cyhoeddedig am danau a gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Iwerddon yn gyfyngedig iawn, ac nid ydynt o reidrwydd yn debyg i'r rhai ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig, felly nid ydym wedi eu defnyddio. Gydag ychydig eithriadau (fel yn yr Unol Daleithiau), mae data am danau a gwasanaethau tân mewn gwledydd eraill hefyd yn gyfyngedig iawn, ac yn gyffredinol nid oes modd eu cymharu o gwbl â'r data ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr.

perfformiad da (neu ddim cystal) gan yr Awdurdodau, rydym wedi egluro'r rhesymau yn y testun.


## Rhan 1: Darparu Gwasanaethau

***Amcanion y Fframwaith:***
- **Lleihau Risg a Gwella Diogelwch Dinasyddion a Chymunedau**
- **Ymateb yn Gyflym ac yn Effeithiol i Ddigwyddiadau**

Ar y cyfan, mae nifer y tanau yng Nghymru wedi bod yn gostwng ers blynyddoedd lawer. Mae sawl rheswm am hyn. Mae rhai ohonynt wedi eu seilio ar dueddiadau cymdeithasol ehangach, fel gostyngiad yn nifer y bobl sy'n ysmygu; neu newidiadau technolegol, fel defnyddio deunyddiau gwrth-fflam ar gyfer dodrefn. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn bod Awdurdodau eu hunain hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at y duedd hon. Maent wedi gweithio ers amser maith i atal tanau a gwella diogelwch tân - er enghraifft, drwy godi ymwybyddiaeth o beryglon tân yn y cartref, a dargyfeirio pobl rhag troseddau sy'n gysylltiedig â thanau. Cydnabu'r Fframwaith hyn, ac anogwyd Awdurdodau i barhau ac ehangu eu gwaith drwy dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl oherwydd tanau, a chydweithio ag asiantaethau eraill.

## Lleihau nifer yr achosion o danau

Mae gwaith diogelwch ac atal tân yn amlwg yn anelu at leihau nifer yr achosion o danau o bob math. At ei gilydd, mae nifer yr achosion o danau yng Nghymru wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth yn ystod cyfnod y Fframwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn dilyn blynyddoedd o ostyngiad cyson, fel nad oes bellach ond ychydig dros hanner cymaint o danau ag yr oedd yn 2005. Mae'r duedd hirdymor yng Nghymru ychydig yn uwch na'r duedd yn Lloegr a'r Alban yn y blynyddoedd diwethaf *(Ffigur 1)*. Er bod nifer yr achosion o danau yn destun mwy o ddylanwadau na gwaith diogelwch Awdurdodau yn unig, o ran penawdau mae'r gwaith hwnnw'n amlwg yn parhau i gyflawni ei amcanion.





***Ffigur 1: newid yng nghyfanswm y tanau***

***Tanau bwriadol***

Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol yn nifer y tanau yn 2018/19. Roedd hyn yn gyfan gwbl oherwydd y cafwyd nifer fawr o danau a oedd yn effeithio ar laswelltir, rhostir a choedwigoedd yn ystod yr haf eithriadol o boeth *(Ffigur 2)*. Mae tanau o'r fath wedi bod yn broblem ddifrifol ac endemig mewn rhai rhannau o Gymru ers amser maith, ac maent yn tarddu yn bennaf o gynnau tanau bwriadol a maleisus. Gallant gael effaith ddinistriol ar yr amgylchedd naturiol ac ar fywyd gwyllt a da byw, ac achosi pryder sylweddol yn y gymuned. Mae mynd i'r afael â nhw'n aml yn heriol, ac nid yw'r criwiau tân perthnasol ar gael i ddelio â digwyddiadau eraill sy'n fwy o fygythiad i fywyd dynol.

Yn dilyn achos difrifol iawn ym mis Ebrill 2015, gweithiodd yr Awdurdodau Tân ac Achub gyda'r heddlu, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau eraill i ddatblygu ymagwedd gydgysylltiedig at leihau tanau glaswellt dan y teitl *Dawns Glaw*. Nod hyn yw codi ymwybyddiaeth o beryglon tanau glaswellt, atal pobl rhag eu cychwyn, a chefnogi camau cydgysylltiedig i ddelio â nhw. Er bod y tywydd yn parhau i ddylanwadu'n drwm ac yn anochel ar nifer yr achosion o danau glaswellt, mae rhywfaint o dystiolaeth bod *Dawns Glaw* wedi bod yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd Pasg 2019, yn debyg i Basg 2015, yn anarferol o gynnes a sych; ac eto mae'r data cychwynnol yn dangos mai dim ond tua hanner cymaint o danau glaswellt a ddigwyddodd. Credwn fod yr Awdurdodau a'u partneriaid yn gwneud popeth sy’n rhesymol bosibl i fynd i'r afael â'r mater hwn.





***Ffigur 2: Tanau bwriadol, Cymru***

***Tanau mewn anheddau***

Er bod tanau glaswellt yn achosi difrod amgylcheddol eang, yn gyffredinol nid ydynt yn peri llawer o fygythiad (neu ddim bygythiad o gwbl) i fywyd dynol. Mewn cyferbyniad, mae *tanau mewn anheddau* yn cyfrif am 10-15% yn unig o'r holl danau, ond rhwng 75 ac 80% o anafiadau oherwydd tân. Nid yw hyn yn syndod: mae llawer o bethau a all

achosi tanau yn y cartref, a gall pobl fod yn arbennig o agored i niwed os ydynt yn hen iawn neu'n ifanc iawn, â nam ar y synhwyrau neu broblemau symud neu, yn fwyaf syml, os ydynt yn cysgu. Mae dros 90% o danau mewn anheddau yn cynnau'n ddamweiniol - er enghraifft, oherwydd bod rhywbeth wedi tynnu sylw pobl wrth iddynt goginio, neu oherwydd bod teclyn neu osodiad trydanol yn methu, neu'n mynd yn anniogel.

Gan hynny, rydym yn falch iawn hefyd o nodi gostyngiad parhaus yn nifer yr achosion o danau damweiniol mewn anheddau yng Nghymru mewn cyfnod o dwf cyson yn y boblogaeth ac mewn cyfraddau adeiladu tai mewn sawl ardal. Nid yw'r gostyngiad hwn wedi bod mor gyflym â'r cwymp yn yr achosion o danau yn gyffredinol, ond mae wedi bod yn fwy cyson (o bosibl oherwydd bod nifer yr achosion o danau damweiniol mewn anheddau yn llawer llai amodol at y tywydd). Mae tanau o'r fath bellach wedi cwympo ymhellach yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban (Ffigur 3).





***Ffigur 3: Newid yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau***

Mae tua 75-80% o danau mewn anheddau yn cael eu hachosi gan ymddygiad anniogel, nid cynhyrchion neu adeiladau anniogel. Gan hynny, mae atal tanau mewn anheddau yn dibynnu i raddau helaeth ar godi ymwybyddiaeth deiliaid tai o risgiau tân, a'u cynghori i osgoi ymddygiadau fel ysmygu yn y gwely neu ddefnyddio sosbenni agored i goginio sglodion. Gall cyflenwi eitemau sylfaenol a rhad, fel dillad gwely gwrth-dân neu geblau ymestyn a ddiogelir gan ffiws hefyd leihau rhai risgiau tân. Yng Nghymru ac mewn mannau eraill, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gwneud hyn drwy raglen o "wiriadau diogelwch tân yn y cartref" neu debyg[2]. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys diffoddwyr tân ac ymarferwyr diogelwch cymunedol yn ymweld â chartrefi pobl i roi cyngor, ac yn aml yn cyflenwi dyfeisiau ac offer diogelwch - a ddarperir yn rhad ac am ddim oherwydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

[2] Defnyddir gwahanol deitlau ledled y Deyrnas Unedig; a lle mae ymweliadau'n mynd i'r afael â risgiau heblaw tân fel baglu a chwympo hefyd, mae'r teitl 'ymweliad saff a diogel' yn dod yn beth cyffredin.

Fel y dengys *Ffigur 4*, mae nifer y gwiriadau o'r fath wedi gostwng rhywfaint yng Nghymru yn ddiweddar, gan fod Awdurdodau'n canolbwyntio mwy ar y rhai sydd fwyaf mewn risg oherwydd tân (gweler isod). Fodd bynnag, mae'r cynllun yng Nghymru yn parhau i fod yn gyffyrddus y mwyaf helaeth ym Mhrydain Fawr.




***Ffigur 4: Gwiriadau diogelwch tân yn y cartref fesul 1,000 o'r boblogaeth***

## Targedu camau atal


Mae'r risg o dân yn y cartref yn amrywio'n sylweddol ar draws y boblogaeth. Gall ffactorau fel henaint, rhai anableddau a phroblemau iechyd meddwl, amddifadedd, ysmygu, problemau alcohol neu gyffuriau a bod yn rhiant sengl gynyddu'n fawr y risg o ddioddef tân mewn annedd, neu'r perygl o fethu â dianc.

Gan hynny, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn awr yn targedu eu gwaith diogelwch tân at y rhai sydd fwyaf mewn perygl, fel yr oedd y Fframwaith yn ei argymell. Mae astudiaethau achos unigol yn datgelu sawl achos lle bu i offer a ddarparwyd gan yr Awdurdod fel rhan o wiriad bron yn sicr atal marwolaeth neu anaf difrifol pan ddechreuodd tân ymledu.

Mae hyn yn tanlinellu ei bod yn debygol o fod yn llawer mwy effeithiol ymgymryd â nifer is o ymyriadau dwys wedi eu teilwra ar gyfer deiliaid tai sydd mewn risg uchel oherwydd tanau, na rhaglen generig gynhwysfawr ar gyfer y nifer lawer mwy o bobl sydd mewn risg isel, na fyddent wedi cael tân beth bynnag, o bosibl. Nid yw bob amser yn hawdd nodi pobl sydd mewn risg uchel. Yn aml mae'n gofyn am gydweithrediad ag asiantaethau eraill, fel y GIG, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a sefydliadau'r trydydd sector.

Er 2015/16, mae'r Awdurdodau wedi cynnal tua 230,672 o wiriadau, ac roedd 210,592 (neu 91%) ohonynt ar gyfer cartrefi ag o leiaf un o'r ffactorau risg a ddisgrifiwyd gennym uchod. At hynny, yn ystod y cyfnod hwnnw mae nifer y gwiriadau ar gyfer cartrefi heb unrhyw ffactor risg wedi gostwng yn sylweddol, tra bod gwiriadau ar gyfer

y rhai sydd â'r risg uchaf wedi cynyddu *(Ffigur 5)*. Ar y cyfan, rydym yn hyderus bod maint a ffocws gwaith diogelwch yn y cartref Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau i gyfrannu at y gostyngiad parhaus mewn tanau mewn anheddau.




***Ffigur 5: gwiriadau diogelwch yn y cartref yn ôl lefel risg deiliad tŷ, Cymru***

### Atal damweiniau eraill

Yn aml, mae pobl sydd mewn risg uchel o dân hefyd yn wynebu peryglon eraill o gwmpas y cartref. Gellir mynd i'r afael â llawer o'r peryglon hynny yn gyflym ac yn syml fel rhan o wiriad arferol yn y cartref. Er enghraifft, mae baglu a chwympo gartref, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, yn achos cyffredin iawn o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans a derbyniadau brys i'r ysbyty. Nid yw llawer o'r rhai a dderbynnir yn dilyn cwymp o'r fath byth yn gwella digon i ddychwelyd adref. Ac eto mae'n hawdd amlygu a chywiro llawer o beryglon baglu yn y cartref.

Gan hynny, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn ehangu cwmpas eu gwaith diogelwch yn y cartref yn gynyddol i gynnwys risgiau fel peryglon baglu, yn ogystal â darparu cyngor ar faterion fel atal troseddau, bwyta'n iach a chamddefnyddio cyffuriau. Wrth ehangu cwmpas y gwaith hwn, mae Awdurdodau'n adeiladu ar y parch uchel iawn sydd gan bobl tuag at ddiffoddwyr tân, a all olygu bod negeseuon oddi wrthynt yn cael eu derbyn yn well na negeseuon gan asiantaethau eraill. Yn gyffredinol, roedd 35% o wiriadau yn y cartref yn 2018/19 yn cynnwys gweithgaredd nad oedd yn gysylltiedig â thân, i fyny o 31% yn 2015-16. Mae hyn yn gynnydd da, ac rydym yn gobeithio ei weld yn cael ei gynnal yn y blynyddoedd i ddod.

### Diogelwch mewn adeiladau annomestig

Mae adeiladau heblaw anheddau yn destun dull gwaith gwahanol a chadarnach. Mae gan Awdurdodau bwerau i archwilio, rheoleiddio a gorfodi mesurau diogelwch tân o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ("y Gorchymyn"). Mae hwn

yn waith arbenigol, a wneir fel arfer gan arolygwyr wedi eu hyfforddi i lefel uchel iawn yn hytrach na diffoddwyr tân rheng flaen.

Mae’r risg o dân neu o anafiadau neu farwolaethau yn sgil tân yn isel yn y mwyafrif o adeiladau annomestig, fel siopau a swyddfeydd - er enghraifft, oherwydd nad oes ffynhonnell sylweddol o dân yn bresennol (fel coginio), neu oherwydd nad oes unrhyw un yn cysgu yno. Fodd bynnag, mae eraill - fel ysbytai, gwestai, cartrefi gofal, adeiladau trwyddedig a ffatrïoedd - mewn mwy o berygl. Mae Awdurdodau yn gwbl briodol yn anelu eu harolygiadau at y grŵp olaf; felly bydd eiddo risg uwch yn cael eu harchwilio bob blwyddyn.

Rydym yn llwyr gefnogi’r dull hwnnw, ac nid oes gennym reswm i amau ansawdd nac effeithiolrwydd gwaith yr Awdurdodau.  Er hynny, mae wedi cael llawer mwy o amlygrwydd o ganlyniad i dân Tŵr Grenfell yn Llundain: mae'r Gorchymyn hefyd yn cwmpasau mannau cymunol mewn blociau o fflatiau. Yn dilyn trasiedi Grenfell, symudodd ein Hawdurdodau yn gyflym i archwilio tyrrau o fflatiau sydd mewn perygl yng Nghymru, i dawelu meddwl preswylwyr, ac i gymryd camau gorfodi effeithiol yn yr eiddo y gwelwyd eu bod yn anniogel. Rydym yn eu canmol yn fawr am hynny, ac am y rôl ganolog y maent wedi ei chwarae wrth ddatblygu ymateb tymor hwy.

Fodd bynnag, mae'r broses o ddysgu gwersi yn sgil Grenfell eisoes wedi nodi pryder nad yw'r Gorchymyn yn gweithio'n dda ar gyfer eiddo preswyl; fe'i cynlluniwyd yn bennaf ar gyfer gweithleoedd. Ymddengys hefyd nad yw'n rhyngweithio'n dda â mathau eraill o reolaeth fel rheoliadau adeiladu neu'r gyfraith ar safonau tai. Dim ond pan ddaeth Deddf Cymru 2017 i rym yn llawn ym mis Ebrill 2018 y cafwyd y pŵer i ddiwygio neu ddisodli'r Gorchymyn. Byddwn yn defnyddio'r pŵer hwnnw i weithredu ar wersi Grenfell yn briodol ac yn llawn.


## Ymateb brys

Er bod gwaith i atal tanau a hyrwyddo diogelwch tân yn amlwg yn hanfodol, ni all fyth ddileu'r risg o dân yn gyfan gwbl. Gan hynny, mae ymateb brys yn parhau i fod wrth wraidd gwaith y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru. Pan fydd tân yn cynnau, nod y Gwasanaeth yw ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Roedd y Fframwaith yn cydnabod hynny, ac yn annog Awdurdodau i gynnal safonau uchel yn y maes hwn.

Wrth i nifer yr achosion o danau ostwng, mae gan Awdurdodau gyfle cynyddol i ymateb i fathau eraill o ddigwyddiadau hefyd. Mae'r sgiliau a'r gwerthoedd sydd gan ddiffoddwyr tân yn aml yr un mor berthnasol i ddelio â bygythiadau eraill i fywyd, ac argymhellodd y Fframwaith hefyd y dylai Awdurdodau barhau i ddatblygu eu gwaith yn y maes hwn.

### Anafusion tanau

Yn fras, mae gwaith diogelwch tân yn ceisio atal tanau rhag ymledu, a’r nod wrth ymateb i danau yw lleihau eu difrifoldeb. Un ffordd o asesu hyn yw edrych ar nifer yr achosion o bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân, gwres neu fwg.  Mae hynny'n arbennig o bwysig ar gyfer tanau mewn anheddau, sef, fel y nodwyd, y categori mwyaf peryglus o danau o bell ffordd. Mewn llawer o achosion, ymateb effeithiol yw un sy'n caniatáu i bobl ddianc, neu gael eu hachub, cyn iddynt gael eu hanafu neu eu lladd - gan gydnabod y gallai hynny fod wedi digwydd cyn i'r Gwasanaeth hyd yn oed fod yn ymwybodol o'r tân mewn achosion eraill.





***Ffigur 6: Newid mewn anafusion tanau y bu'n rhaid iddynt fynd i'r ysbyty***

Fel y dengys *Ffigur 6*, mae anafusion tanau sydd angen triniaeth mewn ysbyty[3] wedi gostwng yn sylweddol dros y 12 mlynedd diwethaf, ac ar gyfradd debyg i Loegr (Sylwer - nid oes data ar gyfer yr Alban ar gael ar gyfer yr holl gyfnod hwn). Mae hynny'n amlwg yn llwyddiant.

Fodd bynnag, mae hynny'n syml yn adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau a ddisgrifir uchod. Os bydd llai o danau, mae'n amlwg y bydd llai o anafusion, gan gymryd y bydd popeth yn gyfartal. Ar ben hynny, mae'r cwymp mewn anafusion wedi bod yn fwy cymedrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae hyn yn arbennig o wir am danau mewn anheddau. Fel y disgrifiwyd uchod, mae nifer y tanau o'r fath wedi gostwng yn sylweddol. Ond nid yw anafusion tanau mewn anheddau wedi cwympo mor gyflym. Felly, nid yw cymharu nifer y tanau mewn anheddau â nifer y rhai a anafwyd y bu'n rhaid iddynt fynd i'r ysbyty mewn tanau o'r fath yn dangos fawr o newid dros amser yng Nghymru na Lloegr *(Ffigur 7)*. Hynny yw, os yw tân yn ymledu mewn annedd, nid yw pobl yng Nghymru yn fwy diogel nag yr oeddent naw mlynedd yn ôl mewn gwirionedd.

[3] Mae data am anafusion yn aml yn cynnwys pobl sy'n ymddangos fel pe na baent wedi eu hanafu gan dân ond mae'r Gwasanaeth yn eu cynghori i ofyn am gyngor meddygol fel rhagofal. Mae nifer y ‘gwiriadau rhagofalus’ o’r fath wedi codi’n sylweddol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu lefel uwch o wybodaeth a hyfforddiant meddygol ymhlith diffoddwyr tân, o bosibl. Heb danseilio'r cyngor a roddir yn yr achosion hyn, mae'r duedd hon yn tueddu i ystumio'r darlun cyffredinol. Gan hynny, dim ond marwolaethau ac anafusion a gafodd driniaeth mewn ysbyty y mae’r data fan hyn yn eu cyfrif.



***Ffigur 7: anafusion yn yr ysbyty fesul 100 o danau mewn anheddau***

Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu nad yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gwella effeithiolrwydd ei ymateb dros y cyfnod hwn. Gall unrhyw welliant o'r fath gael ei guddio gan dueddiadau cymdeithasol fel heneiddio, sy'n golygu y gallai cyfran fwy o'r boblogaeth ei chael hi'n anoddach dianc o dân heb anaf. Mae tystiolaeth ddiweddar hefyd o anafusion oherwydd bod pobl yn mynd yn ôl i mewn i adeilad sydd ar dân i adfer eiddo gwerthfawr fel ffonau symudol[4]. Fodd bynnag, gallem hefyd ddisgwyl y bydd datblygiadau fel perchnogaeth fwy eang o larymau mwg, chwistrellwyr ym mhob cartref newydd a rhagor o ymwybyddiaeth o risgiau tân yn lleihau'r gymhareb anafusion i danau. At ei gilydd, mae hyn yn destun pryder, ac yn un y dylai Awdurdodau ei archwilio ymhellach.

## Lledaeniad tanau


Ffordd arall o asesu effeithiolrwydd ymateb yw ystyried pa mor dda y mae tanau yn cael eu cyfyngu. Os yw'r Gwasanaeth yn cael gwybod yn brydlon am dân, os yw'n ymateb yn gyflym gyda lefel briodol o griw ac offer, ac os yw ei ymdrech diffodd tân yn effeithiol, yna mae tanau'n fwy tebygol o gael eu diffodd cyn iddynt ledu. Mae tanau sy’n cael eu cyfyngu yn gyflym yn peri llai o risg i fywyd ac yn achosi llai o ddifrod i eiddo. Unwaith eto, mae hyn yn arbennig o wir am danau mewn anheddau.

Mae record Awdurdodau yn y maes hwn yn llai cryf. Mae'r data'n dangos bod cyfran y tanau mewn anheddau yng Nghymru a ymledodd y tu hwnt i'r ystafell lle gwnaethant ddechrau wedi cynyddu dros amser *(Ffigur 8)*. Mewn cyferbyniad, mae'r sefyllfa wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth yn Lloegr, ac wedi gwella yn yr Alban er gwaethaf cynnydd mewn tanau heb eu cyfyngu yno y llynedd.

---

[4] Er enghraifft, prosiect ymchwil LIFEBID dan arweiniad Prifysgol Greenwich mewn cydweithrediad â dros 20 o Wasanaethau Tân ac Achub o bob rhan o’r DU: https://fseg.gre.ac.uk/lifebid/index.html

Yn amlwg, nid oes gan Awdurdodau unrhyw reolaeth dros sut a ble mae tanau mewn anheddau yn digwydd, na thros pa mor gyflym y rhoddir gwybod amdanynt, a bydd hynny'n dylanwadu'n drwm ar y data hyn. Er enghraifft, bydd tân yn ymledu yn gyflymach mewn tŷ ffrâm bren a/neu gynllun agored neu fflat nag mewn tŷ cerrig neu frics a/neu sydd â chynllun mwy traddodiadol. Mewn rhai achosion gall tân fod wedi ymledu cyn i'r Gwasanaeth fod yn ymwybodol ohono, hyd yn oed. Fodd bynnag, mae hynny'n wir ledled y Deyrnas Unedig; ac mae'n debyg bod cyflymder ac effeithiolrwydd ymateb diffoddwyr tân hefyd yn peth dylanwad o leiaf. Er y byddem yn gyndyn o ddod i'r casgliad bod y data hyn yn dangos o anghenraid bod problemau gyda'r ymateb hwnnw, mae'r duedd hon yn achos pryder, a dylai Awdurdodau ymchwilio a gweithredu ar hyn.





***Ffigur 8: tanau mewn anheddau'n ymledu y tu hwnt i ystafell y tarddiad***

## Ymateb meddygol brys

Cydnabuwyd ers amser maith, wrth i nifer y tanau ostwng, y gallai fod cyfle ac uchelgais i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymateb i fathau eraill o argyfyngau. Yn benodol, mae cydnabyddiaeth gynyddol y gall y Gwasanaeth chwarae rhan amhrisiadwy wrth ymateb i rai mathau o argyfyngau meddygol i gynorthwyo'r gwasanaeth ambiwlans. Er nad yw'r mwyafrif o ddiffoddwyr tân wedi eu hyfforddi i'r un lefel â pharafeddygon, maent yn dal i fod yn fedrus iawn wrth ddelio â rhai cyflyrau sy'n peryglu bywyd. Mewn achosion o ataliad y galon, er enghraifft, mae ymyrraeth gyflym yn hanfodol i oroesiad y claf - ac yn aml gall y peiriant tân agosaf sydd ar gael fod yn agosach na'r ambiwlans agosaf sydd ar gael. Mae diffoddwyr tân hefyd yn darparu cymorth amhrisiadwy i barafeddygon mewn digwyddiadau o'r fath gan gynnwys drwy roi triniaeth dadebru cardiopwlmonaidd o ansawdd uchel.

Roedd y Fframwaith yn cydnabod bod yr "Ymateb Meddygol Brys", fel y'i gelwir, yn hanfodol i gyfeiriad y Gwasanaeth yng Nghymru yn y dyfodol, ac anogwyd Awdurdodau i barhau i ddatblygu eu gweithgareddau yn y maes hwn. Rydym yn falch

iawn o adrodd eu bod yn gwneud hynny. Fel y dengys *Ffigur 9*, roedd digwyddiadau Ymateb Meddygol Brys wedi cynyddu'n gyflym fel cyfran o'r holl ddigwyddiadau mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt. Heb os, bydd llawer o'r digwyddiadau hyn wedi achub bywydau, a/neu byddant wedi caniatáu i ambiwlansys gael eu defnyddio ar gyfer cleifion sydd angen sylw parafeddygon wedi eu hyfforddi'n llawn.




***Ffigur 9: digwyddiadau ymateb meddygol brys***

Fel y dengys y graff, serch hynny, mae Ymateb Meddygol Brys wedi dod i stop ers 2017-18 oherwydd trafodaethau cyflog heb eu datrys ledled y Deyrnas Unedig rhwng cynrychiolwyr y gweithwyr ac Undeb y Brigadau Tân. Nid mater i'r llywodraeth yw'r trafodaethau hynny, ac nid yw Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn rhan uniongyrchol ohonynt chwaith. Fodd bynnag, byddem yn annog y ddwy ochr i gyrraedd setliad sy'n gwobrwyo diffoddwyr tân yn deg am eu dyletswyddau estynedig, ac sy'n caniatáu i'r gwaith achub bywyd hwn barhau. Ar yr un pryd, mae angen perthynas strategol effeithiol rhwng y GIG a'r Awdurdodau i lywio a llunio'r gweithgaredd hwn; ac rydym wedi cynnull trafodaethau ar lefel uwch reolwyr i'r perwyl hwnnw. Mae gwneud cynnydd ar y materion hyn yn hanfodol i ddyfodol cynaliadwy'r Gwasanaeth.

### Llifogydd ac achub o ddyfroedd

Mae llifogydd yn risg ddifrifol mewn sawl rhan o Gymru. Mae tua 208,500 eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr ac mae tua 163,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb. Bydd newidiadau yn ein hinsawdd, fel stormydd mwy difrifol a hafau a gaeafau gwlypach, yn cynyddu'r risg honno. Ar ben hynny, mae cyfradd uchel o farwolaeth drwy foddi yng Nghymru, fel arfer mewn cyrff dŵr sefydlog yn hytrach na dŵr llifogydd. Gall plant, ac yn enwedig bechgyn, fod mewn perygl arbennig[5].

[5] Gweler dogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Adolygiad thematig o farwolaethau plant a phobl ifanc drwy foddi*, sydd ar gael ar-lein yma.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi ymateb ers tro i ddigwyddiadau llifogydd ac achub o ddyfroedd. Mae wedi gwneud hynny ar sail wirfoddol yn unig, er mai dyma'r unig wasanaeth brys nad yw'n wasanaeth morwrol sydd â'r gallu gofynnol. Mae nifer y digwyddiadau y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt yn amlwg yn dibynnu'n rhannol o leiaf ar y tywydd, ond mae llawer ohonynt yn ddifrifol iawn ac yn peryglu bywyd.

Oherwydd y risgiau yng Nghymru, a phwysigrwydd cynnal gallu'r Gwasanaeth, rhoddwyd dyletswydd statudol ar y Gwasanaeth ym mis Ebrill 2017 i ymateb i lifogydd ac achub o ddyfroedd. Ffurfiolodd hyn y sefyllfa bresennol i raddau helaeth, er ein bod hefyd wedi darparu £2 filiwn o arian ychwanegol ar gyfer cychod, pympiau cyfaint uchel ac offer achub arall. Er bod ymateb i lifogydd hefyd yn statudol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig sydd â dyletswydd gynhwysfawr ar gyfer llifogydd ac achub o gyrff dŵr llonydd. Roeddem yn falch bod y newid hwn wedi ennyn cefnogaeth yr Awdurdodau ac undebau diffoddwyr tân, a chredwn y bydd yn cadw ac yn gwella rhan hanfodol o alluoedd y Gwasanaeth.

**Cydnerthedd Cenedlaethol**

Yn olaf, mae Awdurdodau hefyd yn gyfrifol am ymateb i amrywiaeth o drychinebau ar raddfa genedlaethol a digwyddiadau difrifol iawn eraill. Mae'r gallu 'cydnerthedd cenedlaethol' fel y'i gelwir yn cynnwys materion fel digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear, adeiladau yn cwympo ac ymosodiadau terfysgol. Mae digwyddiadau ar yr raddfa hon a'r difrifoldeb hwn yn galw am offer arbenigol a chriwiau pwrpasol a fyddai y tu hwnt i fodd unrhyw Awdurdod unigol yn gweithredu ar ei ben ei hun. I gydnabod hyn mae'r gallu yn cael ei gynllunio a'i reoli ar sail Cymru gyfan a'i gyllido drwy grant arbennig gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n anodd asesu effeithiolrwydd gallu nad oes ei angen yn llawn yn aml, diolch am hynny. Fodd bynnag, rydym yn falch bod gallu Cymru wedi cael ei raddio'n uchel iawn yn gyson mewn ymarferion ac adolygiadau cymheiriaid. Mae'r camau diweddar mae'r Awdurdodau wedi eu cymryd i wella rheolaeth strategol y gallu hwn wedi creu argraff arnom hefyd.

***Casgliadau:***

- **Mae Awdurdodau wedi llwyddo gyda'r nodau cyffredinol o barhau i leihau nifer a difrifoldeb achosion o dân.**
- **Cafwyd llwyddiannau arbennig wrth fynd i'r afael â bygythiad tanau gwyllt a ddechreuwyd yn fwriadol, wrth barhau i leihau tanau mewn anheddau, wrth ymateb i lifogydd ac argyfyngau meddygol, ac wrth reoleiddio diogelwch tân mewn adeiladau annomestig.**
- **Fodd bynnag, mae ychydig o dueddiadau sy'n peri pryder - yn enwedig cyfradd anafusion tanau mewn anheddau, a nifer y tanau o'r fath sy'n ymledu y tu hwnt i'r ystafell darddiad. Dylai Awdurdodau gymryd camau i ddeall a mynd i'r afael â'r tueddiadau hyn.**

## Rhan 2: Materion corfforaethol

***Amcanion y Fframwaith:***

- **Bod yn atebol mewn modd eglur ac yn gyhoeddus am gyflenwi a chyllido, gan ddangos y safonau llywodraethu uchaf**
- **Cynnal pwysau tuag i lawr ar gostau ac achub ar bob cyfle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd**
- **Cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella effeithlonrwydd a llesiant dinasyddion a chymunedau**

## Safonau llywodraethu

Mae llywodraethu da yn rhan hanfodol o reolaeth unrhyw sefydliad cyhoeddus. Mae'n helpu i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol ac yn effeithlon, a bod y sefydliad yn dylunio, datblygu a darparu mathau a lefelau priodol o wasanaeth.
Mae atebolrwydd i'r cyhoedd yn rhan hanfodol o hyn. Drwy wahodd dadl gyhoeddus, craffu a herio, mae sefydliadau'n cynhyrchu gwybodaeth werthfawr iawn am ddisgwyliadau a phrofiadau pobl, ac am y gwasanaethau sydd eu hangen fwyaf arnyn nhw a'u cymunedau.

Mae heriau penodol wrth wneud hynny yng nghyd-destun y gwasanaethau brys. Er bod rhaglenni diogelwch, atal ac addysg yr Awdurdodau yn bellgyrhaeddol, mewn unrhyw flwyddyn benodol, nid yw'r mwyafrif helaeth o bobl ar ofyn ymateb brys yn uniongyrchol ganddynt - ac nid oes yr un ohonynt yn croesawu'r amgylchiadau pan maent yn gorfod gwneud hynny. Gall hynny gyfyngu a lliwio canfyddiadau pobl o'r hyn mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei wneud, a pha mor dda y mae'n ei wneud. Mae diolch yn deilwng bob amser am achub bywyd neu eiddo rhywun rhag tân neu fygythiadau eraill; ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod y gwasanaeth bob amser yn perfformio cystal ag y gallai.

Mae heriau penodol hefyd o ran sut mae Awdurdodau yn rheoli eu materion eu hunain. Nid yw busnes atal ac ymateb i danau a digwyddiadau eraill yn addas iawn i lawer o dechnegau confensiynol cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad. Yn gyffredinol, mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymwneud â digwyddiadau neu beryglon nad ydynt yn gyfrifol am eu creu ac nad ydynt o dan eu rheolaeth. Mewn cyferbyniad, mae'r mwyafrif o gyrff cyhoeddus eraill yn darparu nifer rhesymol gyson a rhagweladwy o wasanaethau safonol i grŵp cleientiaid y gellir ei adnabod.

Fodd bynnag, mae hynny'n cryfhau'r angen i Awdurdodau gynllunio a rheoli eu gwasanaethau yn effeithiol, ac egluro eu rolau'n glir i'r rhai maent yn eu gwasanaethu. Mae hynny'n fwy gwir byth mewn cyfnod o newid fel yr un a ddisgrifiwyd yn y Fframwaith.

### Cynllunio'n effeithiol

Mae'r cyd-destun statudol ar gyfer gwaith cynllunio Awdurdodau Tân ac Achub yn gymhleth. Ar lefel gorfforaethol mae'n cynnwys gofynion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014, yn ogystal â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub ei hun. Mae gofynion

mwy penodol hefyd sy'n ymwneud â chydraddoldebau, argyfyngau sifil posibl, a'r Gymraeg, er enghraifft. Nid yw'r gofynion hyn o reidrwydd yn gyson â’i gilydd nac yn ategu’i gilydd: maent yn ymwneud â gwahanol faterion ac yn gweithredu o fewn gwahanol amserlenni.

O ystyried y cymhlethdod hwnnw, mae Awdurdodau wedi gwneud yn dda i baratoi cynlluniau busnes a strategol sy'n glir, yn gynhwysfawr ac wedi eu strwythuro'n dda. Yn ddieithriad, maent yn integreiddio ystyriaethau corfforaethol a gweithredol yn llawn, ac yn cynnwys naratif clir sy'n nodi'r hyn mae'r gwasanaeth yn bwriadu ei gyflawni a pham.

Fodd bynnag, gallai rhai cynlluniau wneud mwy i gysylltu amcanion â lefelau risg leol a newidiadau i hynny; ac egluro sut mae perfformiad yn y gorffennol wedi llunio bwriadau ar gyfer y dyfodol. Weithiau mae diffyg sylw i rai o'r agweddau ar arallgyfeirio y mae'r Fframwaith wedi eu nodi, yn enwedig mewn perthynas â chymorth i'r GIG - er ein bod yn derbyn bod cyfyngiadau ar allu Awdurdodau i ymrwymo'n llawn yn y maes hwn, yn enwedig y materion yn ymwneud â chyflog ac amodau diffoddwyr tân y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.

**Aelodau a chraffu**

Er bod y Gwasanaethau Tân ac Achub o dan reolaeth swyddogion sy’n gweithredu dan awdurdod yr Awdurdodau Tân ac Achub, o ddydd i ddydd, yr aelodau sy'n gyfrifol yn y pen draw am lywodraethu a chyfeiriad strategol Awdurdodau. Galwodd y Fframwaith am gynnal a chryfhau eu rolau, pa un ai i wneud penderfyniadau neu i graffu'n effeithiol ar y rhai sy'n gwneud hynny. Mae rôl bosibl hefyd i’r awdurdodau lleol yn ardal yr Awdurdodau Tân ac Achub o safbwynt craffu ar gynlluniau a chyllidebau Awdurdodau.

Rydym yn siomedig bod y cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn gyfyngedig. Er enghraifft, roedd y Fframwaith o blaid gwahanu’r rolau gweithredol a chraffu yn glir o fewn Awdurdodau. Er bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gweithredu fel hyn ers amser maith, nid yw'r ddau Awdurdod arall yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, mae'r potensial ar gyfer cynnydd wedi ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth. Nid yw Deddf Llywodraeth Leol 2000 - sy'n sefydlu rhaniad clir rhwng swyddogaethau gweithredol a chraffu mewn awdurdodau lleol - yn berthnasol i Awdurdodau Tân ac Achub. Er y gallai fod yn bosibl creu rhywbeth tebyg yn fras, mae'r gwahaniad hwnnw yn y pen draw yn dibynnu ar gael grŵp gwleidyddol neu glymblaid sy'n rheoli gyda mandad etholiadol i gyflawni. Nid yw hyn yn bodoli, ac ni all fodoli, o fewn Awdurdod Tân ac Achub.

**Ymgysylltu â'r cyhoedd**

Er nad oes unrhyw ddata ledled Cymru am fodlonrwydd y cyhoedd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, mae tystiolaeth arall yn awgrymu lefel gref o gefnogaeth. Er enghraifft:

- Cynhaliodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd yn 2015, lle nododd 80% o ymatebwyr fod ei wasanaethau’n “dda iawn”, a dim ond 4% o'r farn bod y gwasanaethau’n “wael” neu’n “wael iawn”.
- Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd wedi cynnal arolwg o farn y cyhoedd am y tair blynedd diwethaf, sy’n dangos cyfradd bodlonrwydd o dros 80%.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido llawer o raglenni diogelwch tân cymunedol yr Awdurdodau ac yn defnyddio astudiaethau achos o blith y rhai sydd wedi manteisio ar y rhaglenni hynny i fonitro'u heffaith a'r modd y cânt eu darparu. Mae'r rheiny'n ddieithriad yn gadarnhaol.
- Ychydig iawn o gwynion a gafwyd yn ddiweddar i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am Awdurdodau Tân ac Achub. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon yr un ohonynt[6].

Mae hyn i gyd yn tynnu sylw at wasanaeth y mae'r cyhoedd yn ei barchu'n fawr. Mae hyn yn rhywbeth y dylai pawb yn y Gwasanaeth Tân ac Achub fod yn falch ohono. Fodd bynnag, nid yw yr un peth â'r math o ymgysylltu â'r cyhoedd yr oedd y Fframwaith yn ei argymell. Roedd hyn yn ymwneud yn fwy â datblygu dealltwriaeth o'r modd y mae rôl y Gwasanaeth yn ehangu a'r camau y mae'n eu cymryd i gyflawni hynny.

Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod pob un o'r tri Awdurdod wedi gwneud ymdrechion da i ymgysylltu â'r cyhoedd ar y materion hyn. Mae eu cynlluniau perfformiad a'u hadroddiadau yn gyffredinol yn gryno ac yn hygyrch, yn osgoi jargon ac yn ceisio egluro blaenoriaethau a phenderfyniadau. Fodd bynnag, ac fel y nodwyd uchod, gallai fod mwy o bwyslais ar agweddau'r Awdurdodau nad ydynt yn gysylltiedig â thanau, nad ydym yn argyhoeddedig bod y cyhoedd yn eu deall yn eang eto. Yn yr un modd, gallai Awdurdodau weithiau wneud mwy i gyflwyno gwybodaeth mewn cyd-destun lleol, er enghraifft drwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o ddata a/neu nodi'r hyn y maent wedi ei wneud (ac yn bwriadu ei wneud) ar gyfer gwahanol rannau o'u hardaloedd.

Nid yw atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei gynorthwyo gan drefn gwella statudol yr Awdurdodau, ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Dyluniwyd hwn er mwyn i awdurdodau lleol bennu blaenoriaethau o fewn yr amrywiaeth lawer ehangach o wasanaethau y maent yn eu darparu a'r mandadau etholiadol sydd gan eu haelodau. Yn achos Awdurdodau, mae'n fwy o fater o ddarparu amrywiaeth gymharol gul o wasanaethau mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu risg leol a bennir yn wrthrychol. Felly, mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau cyfredol yn cynnwys pwerau i ni ddatblygu cyfundrefn newydd a fydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Byddwn yn gwneud hynny gan ymgynghori'n llawn â nhw, a'n nod fydd sicrhau bod hwn yn ei le yn ogystal a Fframwaith newydd yn 2021.

## Materion ariannol

Fel pob corff cyhoeddus, mae angen i Awdurdodau weithredu mor ddarbodus ac effeithlon â phosibl, er mwyn lleihau'r baich ar y pwrs cyhoeddus. Mae hynny'n arbennig o wir yn y cyfnod presennol o gyni.

Mae heriau anarferol yn wynebu Awdurdodau yn hyn o beth. Er bod y dirywiad hirdymor yn nifer yr achosion o danau yn llwyddiant gwirioneddol, ni all arwain at ostyngiad cyfartal mewn adnoddau diffodd tân na gwariant arnynt: mae angen i'r Gwasanaeth allu ymateb i unrhyw ddigwyddiad ar unrhyw adeg o hyd. Yn wahanol i lawer o sefydliadau eraill, ni all Awdurdodau reoli'r galw am eu gwasanaethau ymatebol drwy ddefnyddio rhestrau aros neu flaenoriaethu rhai derbynwyr dros eraill. Mae llawer o rannau o gefn gwlad Cymru eisoes yn cael eu gwasanaethu gan

[6] Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/publications/Annual-reports.aspx


orsafoedd dyletswydd wrth gefn (ar alwad) ag un peiriant yn unig, sy'n golygu nad oes llawer o le i arbed arian yn yr ardaloedd hynny heb arwain at ddirywiad yn y gwasanaeth.

Serch hynny, mae pwysau ariannol yn parhau i fod yn ddifrifol; ac mae'r model cyllido ar gyfer Awdurdodau yng Nghymru yn tanlinellu'r angen am effeithlonrwydd. Mae Awdurdodau yn casglu cyfraniadau gan eu hawdurdodau lleol cyfansoddol, sydd eu hunain dan straen eithriadol. Mae angen i Awdurdodau fod yn gyson yn eu dull o leddfu'r pwysau hynny drwy osod cyfraniadau ar y lefel isaf sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy. Roedd y Fframwaith yn nodi rhai ffyrdd y gallent wneud hynny.

**Gwariant cyffredinol a chymharol**

Mae cost flynyddol gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru y pen ar gyfartaledd bellach ychydig yn llai na £50. Mewn termau real (hynny yw, gan addasu ar gyfer chwyddiant) mae wedi gostwng ychydig o dan £9 y pen, neu oddeutu 15%, er 2005. Fodd bynnag, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ni fu unrhyw newid sylweddol.

Mae hyn yn cyferbynnu â gwariant termau real gan awdurdodau lleol. Er bod hwn wedi gostwng yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gwariant Awdurdodau wedi gostwng ymhellach ac am gyfnod hirach - gan ddangos bod Awdurdodau wedi gwneud galwadau cymharol is ar gyllidebau awdurdodau lleol, er bod y bwlch yn dechrau cau (*ffigur 10*). Yn gyffredinol, mae'n amlwg bod Awdurdodau wedi cynnal o leiaf rhywfaint o bwysau ar i lawr ar eu costau, fel yr argymhellwyd yn y Fframwaith.




***Ffigur 10: newid yng ngwariant awdurdodau lleol Cymru ac Awdurdodau Tân ac Achub y pen, prisiau cyfredol***

Nid yw hyn yn syndod, efallai. Mae nifer yr achosion o dân wedi gostwng yn gyflymach yn ystod y cyfnod hwn; ac er y byddai'n anghywir disgwyl i hynny olygu gostyngiad cyfartal mewn gwariant Awdurdodau, roedd rhywfaint o ostyngiad mewn costau yn rhesymol debygol. Er enghraifft, mae cost cyflogi'r rhan fwyaf o'r nifer fawr o


ddiffoddwyr tân system dyletswydd yn ôl y galw Cymru yn gymesur â nifer y digwyddiadau y maent yn cael eu galw iddynt. Mewn cyferbyniad, mae'r galw am lawer o wasanaethau awdurdodau lleol yn cynyddu: mae'r rhai mwyaf (addysg a gwasanaethau cymdeithasol) yn profi galw uwch o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth.

Mae'n amlwg bod y tri Awdurdod wedi cymryd camau i nodi dulliau o arbed arian, ac i'w rhoi ar waith.  Mae hynny'n amlwg o'r gostyngiad cyffredinol mewn costau. Mae'n bosibl y bydd yn adlewyrchu'n benodol y gwaith i adolygu galluoedd a threfniadau gweithredol Awdurdodau, ac alinio'r rheiny â lefelau risg hysbys a'r rhai a ragwelir. Mae hwn yn waith pwysig, ond gall fod yn ddadleuol yn lleol os yw'n arwain at gau gorsafoedd tân neu dynnu peiriannau tân yn ôl. Rydym yn glir mai penderfyniadau ar gyfer Awdurdodau yw'r rhain; ond rydym yn eu hannog i barhau i adolygu galluoedd rheng flaen, ac i ymgysylltu'n llawn â chymunedau lleol i dawelu pryderon posibl. Mae Awdurdodau hefyd wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau effeithlonrwydd, er enghraifft drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

Mae'r holl ymdrechion hyn wedi bod yn effeithiol ac wedi eu gwneud yn ddidwyll. Fodd bynnag, gall y trefniadau llywodraethu a chyllid presennol olygu nad yw'r pwysau i nodi a gwireddu arbedion gymaint ag y dylai fod. Mae Awdurdodau wedi ymgysylltu'n rheolaidd ag awdurdodau lleol i bennu eu cyllidebau, ond rydym yn ymwybodol bod nifer o gynghorau yn anfodlon â lefel y cyfraniadau a geisir, a chyda'r system sy'n golygu bod gan Awdurdodau ymreolaeth i bennu'r lefel honno fel y gwelant yn dda. Mynegwyd yr anfodlonrwydd hwnnw'n glir wrth ymateb i'n Papur Gwyn yn 2018. Er bod y data'n dangos bod Awdurdodau fel arfer wedi pennu cyllidebau cymedrol a rhesymol, mae eu gallu i wneud hynny heb unrhyw fath o reolaeth nac atebolrwydd democrataidd yn rhywbeth nad yw'n bodoli mewn unrhyw fan arall yn y sector cyhoeddus. Mae'n debygol o leihau pwysau ar Awdurdodau i nodi a gwireddu arbedion.

Mae hefyd yn bosibl cymharu gwariant â'r gwariant yn Lloegr. Yno, mae'r gost o ddarparu gwasanaethau tân ac achub y pen[7] yn tueddu i fod yn sylweddol is nag yng Nghymru (*ffigur 11*)[8].

[7] Mae rhai Awdurdodau yn Lloegr yn dal i gael eu cyfrif fel rhan o gynghorau sirol neu unedol, ac felly mae ganddynt orbenion corfforaethol llawer is (gan fod y cyngor cyfan yn cyfrif am y mwyafrif o'r rhain) a chyfanswm costau is y pen. Rydym wedi caniatáu ar gyfer hyn drwy gynnwys costau darparu gwasanaeth yn y siart gymharol yn unig.
[8] Sylwer nad oes data cymaradwy ar gael ar gyfer yr Alban.




***Ffigur 11: Gwariant ar ddarparu gwasanaethau Awdurdodau y pen, prisiau cyfredol***

Mae'n ddigon posibl y bydd pwysau a fydd yn anochel yn cynyddu costau yng Nghymru. Er enghraifft, er mwyn darparu gwasanaethau tân ac achub yng nghefn gwlad Cymru rhaid cynnal llawer o orsafoedd tân bach i sicrhau bod yr ardal gyfan yn cael ei chwmpasu. Fodd bynnag, mae hynny'n wir hefyd am lawer o rannau o Loegr; ac mae'r diffoddwyr tân ar alwad sy'n gofalu am orsafoedd o'r fath bob amser yn mynd i gostio llai na'u cymheiriaid cyfwerth ag amser llawn. Yr esboniad mwyaf tebygol yw'r model cyllido gwahanol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub Lloegr. Mae hwn yn dibynnu'n rhannol ar gyllid uniongyrchol gan lywodraeth ganolog, y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei dorri'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.


Nid yw lleihau gwariant yn ddiben ynddo'i hun, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau brys sy'n hanfodol i ddiogelwch. Mae llawer sy'n ymwneud â gwasanaethau tân ac achub yn credu bod y toriadau mewn gwariant yn Lloegr wedi mynd yn rhy bell. Fodd bynnag, mae'r gymhariaeth hon yn dangos y gallai fod potensial nas gwireddwyd i leihau costau yng Nghymru. Roedd y Fframwaith yn annog yr Awdurdodau i archwilio hyn yn fanwl, ac i gymharu eu costau cyffredinol a'u costau fesul uned ag Awdurdodau tebyg yn Lloegr. Gall meincnodi fel hyn fod yn ffordd ffrwythlon iawn o nodi ffyrdd o wella effeithlonrwydd. Er bod angen rhywfaint o waith i nodi Awdurdodau tebyg a'u gwariant, ni ddylai hyn fod yn heriol. Rydym yn ymwybodol bod un Awdurdod wedi gwneud ychydig o waith ar gost gorsafoedd tân gwledig, ond mae lle i wneud mwy o bosib.

## Lleihau gwastraff

Ar adeg cyhoeddi'r Fframwaith diwethaf, roedd y tri Awdurdod yn ymateb i ragor o alwadau diangen nag i danau gwirioneddol. Nid yw ymatebion o'r fath o unrhyw fudd o gwbl; maent yn atal diffoddwyr tân rhag delio â digwyddiadau dilys, ymgymryd â hyfforddiant sy'n hanfodol o ran diogelwch, neu wneud gwaith diogelwch ac atal tanau, ac yn rhoi diffoddwyr tân a defnyddwyr eraill mewn perygl yn sgil teithiau 'golau glas'

diangen. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau o'r fath yn codi oherwydd systemau larwm tân awtomatig (AFA) sy'n camweithio neu sydd wedi eu gosod yn wael mewn adeiladau annomestig sy'n rhybuddio'r Gwasanaeth yn awtomatig am dân nad yw'n bodoli.

Cydnabyddir yn eang bod hwn yn faich mawr ar y Gwasanaeth ledled y Deyrnas Unedig. Anogwyd Awdurdodau yng Nghymru gan y Fframwaith i efelychu rhai o'u cymheiriaid mewn mannau eraill, a chymryd camau i leihau eu presenoldeb yn sylweddol. Gwnaed pwyntiau tebyg mewn adroddiad gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn 2015. Er mai perchnogion a deiliaid yr adeiladau lle mae'r achosion hyn yn digwydd sy'n gyfrifol am alwadau diangen yn y pen draw, mae camau diogel a phrofedig y gall Awdurdodau eu cymryd o hyd i leihau eu presenoldeb ynddynt. Yn sicr, dylai fod yn haws lleihau presenoldeb yn sgil galwadau diangen na lleihau tanau go iawn. Ac eto mae'r gostyngiad gwirioneddol wedi bod yn llawer llai. Bu rhywfaint o welliant yn y maes hwn, yn enwedig yng ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r broblem hon; mae Cymru gyfan wedi gwneud yn sylweddol waeth na Lloegr yn y maes hwn (*Ffigur 12*)[9]. Cynyddodd galwadau diangen yn 2018/19, er bod hynny i raddau helaeth oherwydd mwy o alwadau diangen 'bwriad da' (pan fydd rhywun yn gwneud galwad i 999 gan dybio'n anghywir bod tân yn bodoli) yn hytrach na galwadau diangen awtomatig diffygiol; ac ni ellir beio'r Gwasanaeth am ymateb i bob galwad o'r fath.




***Ffigur 12: newid yn nifer yr ymatebion i alwadau diangen***

Mae'n anodd pennu cost arian parod galwadau diangen. Mae diffoddwyr tân amser llawn sy'n ymateb yn cael eu talu beth bynnag, er mai dim ond am y digwyddiadau (gan gynnwys galwadau diangen) y maent yn ymateb iddynt y telir y mwyafrif o ddiffoddwyr tân yn ôl y galw Fodd bynnag, mae'n amlwg bod gwastraff adnoddau sylweddol pan fydd galw ar staff ac offer mewn cymaint o weithgarwch

[9] Sylwer nad oes data o'r Alban ar gael am y cyfnod cyfan.

anghynhyrchiol, ochr yn ochr â'r aflonyddwch diangen a achosir i fusnesau ac adeiladau gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r larymau hyn yn seinio.

Ni fyddai'n ddoeth na'n ddiogel i Awdurdodau wrthod ymateb i bob larwm tân awtomatig. Mae'r diffygion diogelwch tân sydd wedi dod i'r amlwg mewn adeiladau ers tân Twr Grenfell yn golygu bod rhaid i unrhyw newidiadau i bolisïau ymateb fod yn amodol ar asesiad risg cadarn, gan ddefnyddio mesurau rheoli priodol yn ôl yr angen. Er hynny, mae galwadau diangen yn parhau i fod yn fwy niferus na thanau ledled Cymru gyfan. Rydym yn parhau i fod yn argyhoeddedig y gall ac y dylai o leiaf dau o'n Hawdurdodau wneud mwy i leihau eu presenoldeb ynddynt a'r gwastraff adnoddau y mae hyn yn ei greu. Disgwyliwn weld camau o'r fath yn cael eu cymryd yn ystod gweddill oes y Fframwaith hwn.

## Cydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn tynnu sylw at gydweithredu fel un o'r pum ymagwedd allweddol at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cydnabod bod cydweithredu effeithiol yn rhan allweddol o ddarparu gwasanaethau hygyrch, effeithiol. Mae hyn yn wir lle mae Awdurdodau yn bennaf gyfrifol am wasanaeth penodol neu lle mae ganddynt y potensial i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan roi anghenion dinasyddion o flaen ffiniau sefydliadol.

Gan hynny, ceisiodd y Fframwaith gamau gweithredu gan Awdurdodau i adolygu eu gweithgarwch cydweithredu ar bob lefel, gan gyfeirio'n benodol at leihau achosion o ddyblygu gwaith, a cheisio cyfleoedd i gynorthwyo'r sector cyhoeddus ehangach o ran atal ac ymateb i argyfyngau. Mae'r Fframwaith hefyd yn cydnabod y rôl y gall cydweithredu ei chwarae wrth sicrhau effeithlonrwydd.

Mae rhannau cynharach o'r adroddiad hwn wedi ymdrin â'r graddau y mae Awdurdodau yn cydweithredu ag asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a chyfrannu at ganlyniadau ehangach. Ar lefel gorfforaethol, mae'r tri Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu yn eu cynlluniau strategol, ac mae pob un hefyd yn cymryd rhan fel aelodau llawn o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n pennu ac yn gweithio tuag at amcanion a rennir ar lefel awdurdod lleol. Ar lefel Cymru gyfan mae mecanweithiau ar waith erbyn hyn ar gyfer cynllunio strategol ar y cyd â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a chyda'r GIG yn gyffredinol. Mae'n bosibl na fydd y mecanweithiau hyn bob amser yn gweithio'n esmwyth; er enghraifft, rydym yn ymwybodol y gall fod yn feichus i Awdurdodau fod yn bresennol ym mhob un o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hardaloedd, ond nid oes amheuaeth am yr ymrwymiad i gydweithredu ar y lefel hon.

### Cydweithio er budd Effeithlonrwydd

Gall cydweithredu hefyd wella effeithlonrwydd, wrth gwrs, drwy rannu costau gwasanaethau neu gyfleusterau cyffredin. Mae Awdurdodau'n cydweithredu ymysg ei gilydd i'r perwyl hwn, yn bennaf drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, a sefydlwyd ganddynt yn 2012. Nod y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yw hyrwyddo cydweithredu a rhannu costau ar draws amrywiaeth o wasanaethau gweithredol a chymorth, ac mae bron yn sicr wedi sicrhau arbedion sylweddol drwy wneud hynny.

Mae'r Awdurdodau hefyd yn ceisio arbed costau drwy rannu cyfleusterau â sefydliadau eraill. Yr enghraifft ddiweddaraf amlycaf yw uno Ystafelloedd Rheoli Awdurdod Tân ac

Achub De a Chanolbarth a Gorllewin Cymru â Phencadlys Heddlu De Cymru (y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd). Disgwylir i hyn arbed hyd at £1 miliwn y flwyddyn ar draws y ddau awdurdod, yn ogystal â darparu gwasanaeth mwy integredig ac effeithiol. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi rhannu ystafell reoli gyda Heddlu Gogledd Cymru ers blynyddoedd lawer.

Mae hefyd yn dod yn fwy cyffredin i orsafoedd tân gael eu rhannu â gwasanaethau brys eraill. Mae'r orsaf newydd yn Wrecsam, er enghraifft, yn gyfleuster mawr y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ei ddefnyddio ar y cyd; tra bod Heddlu Dyfed Powys yn rhannu'r orsaf newydd yn Llandrindod; a'r tri gwasanaeth brys yn defnyddio'r orsaf ar ei newydd wedd yn Abertyleri. Unwaith eto, mae datblygiadau o'r fath yn arbed costau ac o bosibl yn gwella gwasanaethau i bobl leol. Rydym yn annog datblygiadau pellach o'r fath yn fawr wrth i'r ystâd bresennol gael ei hadnewyddu neu ei hailwampio.

***Casgliadau:***

- **Mae Awdurdodau yn gwneud yn dda i lywio gofynion cynllunio ac adrodd sydd weithiau'n gymhleth, a chynnal lefel uchel o fodlonrwydd a chefnogaeth o du'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r fframwaith cyfreithiol cyfredol yn eu hatal rhag bod yn gwbl atebol.**
- **Mae costau gwasanaeth wedi gostwng, ond mae absenoldeb rheolaeth allanol neu ddemocrataidd dros gyllidebau yn golygu bod un o'r prif ysgogwyr effeithlonrwydd ar goll.**
- **Yn benodol, dylai Awdurdodau wneud llawer mwy i nodi arbedion posibl drwy feincnodi eu costau. Mae angen i ddau ohonynt hefyd wneud mwy i wastraffu llai o adnoddau drwy ymateb i alwadau diangen.**
- **Mae ymrwymiad yr Awdurdodau i gydweithredu ar lefelau strategol a gweithredol yn glir, ac yn debygol o barhau i wella effeithlonrwydd a safonau gwasanaeth.**

## Rhan 3: Y Gweithlu

***Amcanion y Fframwaith:***


- **Gwerthfawrogi a datblygu'r gweithlu i'r safonau uchaf**

Mae'r gweithlu'n hanfodol i bopeth y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei wneud. Mae darparu ymateb brys a gwasanaethau ataliol yn dibynnu'n llwyr ar sgiliau, ymrwymiad ac ymroddiad diffoddwyr tân, staff yr ystafell reoli a staff cymorth. Wrth newid rôl y Gwasanaeth rhaid yn yr un modd adeiladu ar y sgiliau a'r galluoedd hynny mewn ffordd effeithiol, cynaliadwy a chynhwysol. Felly, roedd y Fframwaith yn rhoi pwyslais mawr ar werthfawrogi a datblygu'r gweithlu.

### Capasiti a Llwyth Gwaith


Fel y nodwyd yn Rhan 1, mae nifer yr achosion o dân yn gostwng yn y tymor hir. Er bod hynny wedi ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd yn nifer digwyddiadau eraill y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt, megis argyfyngau meddygol, mae'r llwyth gwaith cyffredinol yn gostwng hefyd.

Nid yw hyn yn golygu y gall, nac y dylai, nifer y diffoddwyr tân ostwng yr un fath. Mae angen i'r Gwasanaeth ymateb i unrhyw ddigwyddiad, unrhyw bryd; a gall digwyddiadau mawr ddefnyddio mwy o adnoddau diffodd tân mewn radiws eang. Fodd bynnag, gallai'r gostyngiad hirdymor yn nifer y tanau olygu bod y risg mewn llawer o gymunedau yn is hefyd, ac y gallai lefel y capasiti diffodd tân ostwng yn ddiogel i ryw raddau. Felly, cafwyd peth gostyngiadau bach yn nifer y diffoddwyr tân, fel y gwelir yn *ffigur 13*, er bod y niferoedd wedi sefydlogi'n fwy diweddar. Mater i'r Awdurdodau yw hyn. Rhaid iddynt asesu lefelau tymor canolig i'r tymor hir o risg yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac addasu eu capasiti yn unol â'r rheini.




**Ffigur 13: Gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub fesul swydd, Cymru**

O ganlyniad i'r dull hwn, mae niferoedd y digwyddiadau wedi gostwng yn llawer cyflymach na niferoedd y diffoddwyr tân. Mae hyn yn golygu bod nifer y digwyddiadau y mae'r diffoddwr tân cyffredin yn mynd atynt wedi gostwng hefyd, fel y gwelir yn *ffigur 14*.




**Ffigur 14: digwyddiadau blynyddol fesul diffoddwr tân, Cymru**

Dim ond cymhareb rhwng digwyddiadau a diffoddwyr tân yw'r data yma, felly dylid bod yn wyliadwrus wrth eu dehongli. Nid ydynt yn golygu bod diffoddwr tân cyffredin yn ymateb i lond llaw o danau bob blwyddyn yn unig: fel arfer, mae diffoddwyr tân yn

ymateb i danau mewn grwpiau o bump o leiaf, ac o fwy yn aml. Ac mae diffoddwyr tân yn gwneud llawer o waith addysg, atal a diogelwch tân cymunedol, ac nid yw hyn wedi ei gynnwys yn y data hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod llwyth gwaith y Gwasanaeth, o ran ymateb brys o leiaf, yn gostwng yn gyson.

Mae nifer o ganlyniadau pwysig i'r llwyddiant amlwg hwn. Yn gyntaf, mae'n pwysleisio'r posibilrwydd – a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn – i'r Gwasanaeth ymateb i amrediad ehangach o ddigwyddiadau nad ydynt yn danau. Yn ail, mae'n golygu bod rhaid i ddiffoddwyr tân, er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol, hyfforddi mwy yn hytrach na dibynnu ar brofiad a gafwyd mewn digwyddiadau go iawn – ac edrychir rhagor ar y mater hwn yn is i lawr. Yn drydydd, mae'r tueddiad hwn yn dechrau cael effeithiau penodol ar ddiffoddwyr tân sy'n gweithio yn y system RDS (ar ddyletswydd yn ôl y galw).

Nid yw diffoddwyr tân y system RDS yn gweithio oriau neu shifftiau penodedig. Maent yn cael eu galw o'u cartrefi neu o'u gweithleoedd i fynd at ddigwyddiadau pan fydd angen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael tâl am yr oriau y cânt eu galw yn unig, yn ogystal ag amser hyfforddi (er bod y rhai yn Ne Cymru yn cael cyflog sefydlog); maent hefyd yn cael 'tâl cadw' blynyddol. Maent yn gyffredin iawn mewn ardaloedd gwledig a threfi bach, lle nad yw'r risg isel o dân yn gallu cyfiawnhau cynnal criwiau amser cyflawn.

Mae llai o niferoedd yn golygu llai o incwm i'r rhan fwyaf o ddiffoddwyr tân y system RDS. O'r 106 o orsafoedd tân y system RDS yng Nghymru, mae 74 fel arfer yn ymateb i lai nag un tân neu ddamwain ar y ffordd bob wythnos, a 33 o'r 74 i lai nag un bob pythefnos. Ond mae'r ymrwymiad i fod ar alwad ac ar gael i fod ar ddyletswydd yn dilyn rhybudd o ychydig funudau ar gyfer 120 (fel arfer) o oriau bob wythnos yn parhau yr un fath. Rydym yn ymwybodol ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd, i lawer o ddiffoddwyr tân y system RDS gyfiawnhau hyn,; a'i bod yn mynd yn fwyfwy heriol eu recriwtio a'u cadw. Fodd bynnag, y gorsafoedd llai prysur hyn yw'r unig bresenoldeb yn aml sydd gan y Gwasanaeth mewn ardal fawr; ni ellir, yn ddiogel, ganiatáu iddynt gau. Cafwyd enghraifft amlwg o hynny ym mis Hydref 2017, pan ymatebodd un o'r gorsafoedd lleiaf prysur yng Nghymru (Llanwrtyd) i dân difrifol mewn cartref lle bu farw chwe unigolyn ond lle bu tri fyw.

Dyma her fawr, a bydd angen ei goresgyn os ydym eisiau parhau i gynnal gwasanaethau tân ac achub yn ardaloedd gwledig Cymru; ac mae'n ymddangos yn debygol y bydd angen ailfeddwl yn sylfaenol am y system RDS yn hytrach na gwneud newidiadau bach iddi fesul tipyn. Byddwn ni'n gweithio gyda'r Awdurdodau, undebau diffoddwyr tân ac eraill i wneud hynny.

### Ehangu'r swydd

Rhan o'r ateb i'r broblem yn y system RDS – ac yn wir i'r ffaith fod llwyth gwaith brys y Gwasanaeth yn lleihau yn gyffredinol - yw ehangu swyddi diffoddwyr tân. Fel yr esboniwyd yn Rhan 1, mae cyfle mawr i ddiffoddwyr tân ymateb i ystod ehangach o argyfyngau ac i hybu diogelwch yn ehangach. Mae llawer eisoes yn digwydd yn y maes hwn: er enghraifft, mae llawer o orsafoedd y system RDS yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ymateb i fwy o argyfyngau meddygol nag i danau. Mae hyn yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i gymunedau lleol ac mae'n golygu bod gweithio fel diffoddwr tân y system RDS yn talu mwy, yn bersonol ac yn ariannol.

Fodd bynnag, bydd cynnydd ehangach yn y maes hwn yn dibynnu i gyflogwyr ac undebau ledled y Deyrnas Unedig ddod i gytundeb ynghylch cyflogau ac amodau diffoddwyr tân. Mae’r trafodaethau’n digwydd, fel yr arfer, dan nawdd y Cyd-Gyngor Cenedlaethol, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru nac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru unrhyw ran yn y trafodaethau hyn. Er hynny, rhaid cael cytundeb er mwyn dyfodol cynaliadwy'r Gwasanaeth, ac rydym yn falch fod y ddwy ochr yn y Cyd-Gyngor yn cydnabod bod swydd ehangach yn rhywbeth angenrheidiol a dymunol. Ond mae dipyn o wahaniaeth rhwng eu barn ar yr hyn y byddai’r swydd yn ei olygu a beth fyddai lefel y cyflog priodol.


Ond bydd ehangu swyddi diffoddwyr tân yn golygu llawer mwy na diwygio eu contractau cyflogaeth. Mae undebau diffoddwyr tân eisoes wedi mynegi pryder fod rhaid i'w haelodau gael hyfforddiant, cyfarpar a chefnogaeth briodol i ddelio ag amrediad ehangach o ddigwyddiadau, ac rydym yn cefnogi hynny'n llwyr. Bydd amrediad ehangach o dasgau yn galw am sgiliau, gweithdrefnau a chyfarpar gwahanol; yn y tymor hir, gallai hyn olygu newidiadau hefyd i strwythurau, prosesau a diwylliant y Gwasanaeth. Bydd hyn yn golygu proses hir dan reolaeth briodol o ddatblygu'r sefydliad, fel y mae’r Fframwaith yn ei chydnabod. Mae hi’n rhy gynnar i ddisgwyl cynnydd yn y maes hwn gan nad oes cytundeb ar gyflogau eto, ond dylai’r Awdurdodau sylweddoli cymaint o waith mae hyn yn ei olygu.

### Diogelwch a llesiant

Mae diffodd tanau yn waith sy’n llawn perygl a straen, ac ni ellir osgoi hynny: mae’r Gwasanaeth yn ymateb i lawer o ddigwyddiadau a allai olygu bygythiad marwol i ddiffoddwyr tân. Mae eu cadw nhw mor ddiogel â phosibl yn un o brif flaenoriaethau'r Gwasanaeth heddiw ac yn y dyfodol, ac mae hyn i'w weld yn y cyfarpar, yr hyfforddiant a'r prosesau gweithredol. Marwolaeth drasig yn ystod hyfforddiant ar y dŵr ym mis Medi 2019 oedd y tro cyntaf ers sawl blwyddyn i ddiffoddwr tân yng Nghymru gael ei ladd ar ddyletswydd.

Mae’r peryglon annatod sy'n wynebu diffoddwyr tân yn golygu y gallent brofi lefelau uwch o absenoldeb oherwydd salwch ac anaf na gweithwyr yn gyffredinol. Fel y gwelir yn *Ffigur 15*, mae’r lefelau absenoldeb cyffredinol wedi amrywio yn y blynyddoedd diweddar, ond maent fymryn yn uwch yn awr nag yr oeddent yn 2005.

Gallai hyn ymddangos yn rhyfedd o ystyried y ffaith fod gostyngiad wedi bod yn nifer y digwyddiadau y mae diffoddwyr tân yn ymateb iddynt. Yn sicr, maent yn wynebu llai o risgiau o anaf mewn tanau nag o'r blaen. Yn wir, mae’r gostyngiad amlwg yn nifer y digwyddiadau ers 2010 yn gysylltiedig â chynnydd yr un mor amlwg yn yr absenoldeb salwch.




***Ffigur 15: newid yn yr absenoldeb salwch am bob diffoddwr tân cyfwerth â amser llawn a chyfanswm y digwyddiadau (ac eithrio galwadau diangen), Cymru***

Cyd-ddigwyddiad efallai, ond mae hyn wedi digwydd dros gyfnod o ryw wyth mlynedd. Er bod unrhyw gasgliadau yn rhai damcaniaethol ar hyn o bryd, gallai gyfleu hefyd fod diffoddwyr tân, wrth iddynt wynebu llai o ddigwyddiadau go iawn, yn gorfod dibynnu fwyfwy ar hyfforddiant ac efelychiadau i gynnal eu sgiliau gweithredol. Mae hyfforddiant wedi cael ei greu i fod mor realistig â phosibl wrth gwrs, ond gan fod yn ddiogel i'r rhai sy'n cymryd rhan. Ond mae'n bosibl nad yw'r hyfforddiant yn cyfleu'n llwyr y straen sy'n gysylltiedig ag ymateb i argyfwng go iawn.  Gallai diffoddwyr tân sy'n wynebu straen o'r fath yn llai aml fod yn fwy tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl yn dilyn digwyddiadau difrifol gwirioneddol, a gwyddom am bryderon yn y Gwasanaeth mai felly y mae pethau. Er ein bod yn gwbl fodlon fod yr Awdurdodau yn darparu cymorth priodol i ddiffoddwyr tân sy'n profi problemau'n gysylltiedig â straen, mae'r duedd hon yn achosi pryder ac mae'n werth ei monitro'n agos.

Ffordd bwysig arall sydd gan yr Awdurdodau o gadw diffoddwyr tân yn ddiogel yw dysgu gwersi o ddigwyddiadau difrifol, a chymhwyso'r gwersi hynny i brosesau hyfforddi a gweithredu. Yn 2017-18, fe wnaeth y Prif Gynghorydd Tân ac Achub gynnal adolygiad o ba mor dda yw diffoddwyr tân am wneud hyn[10]. Ar y cyfan, canfu'r adolygiad fod gweithdrefnau'r tri Awdurdod yn gadarn, a bod peth lle manwl i wella. Bydd yn bwysig i'r Awdurdodau weithredu ar sail y canfyddiadau hyn.

I gloi, gallai diffoddwyr tân hŷn wynebu anhawster arbennig o ran parhau i gyrraedd safon ffitrwydd llym y Gwasanaeth, yn enwedig gan fod yr oedran pensiwn yng nghynllun pensiwn newydd 2015 wedi codi i 60. Fel roedd y Fframwaith yn ei argymell, mae'r tri Awdurdod yn parhau i ddilyn yr un safon ffitrwydd, a hynny er mwyn tryloywder a thegwch. Maent hefyd yn cefnogi diffoddwyr tân hŷn a allai ei chael yn anodd cynnal eu ffitrwydd, ac ni wyddom am unrhyw achos lle mae diffoddwyr tân wedi cael eu diswyddo am resymau o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi addasu telerau'r cynllun pensiwn newydd i ganiatáu i bobl sy'n penderfynu ymddeol yn

[10] https://llyw.cymru/adolygiad-thematig-y-prif-gynghorydd-tan-ac-achub

55 oed neu'n hŷn (boed am resymau ffitrwydd neu fel arall) gael pensiwn uwch. Fodd bynnag, 50-55 o hyd yw oedran pensiwn y rhan fwyaf o ddiffoddwyr tân a oedd yn 45 oed o leiaf yn 2012, felly dim ond 52 oed yw'r diffoddwyr tân hynaf y mae'r newidiadau'n berthnasol iddynt. At hynny, mae achos llys a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi codi amheuaeth ynglŷn â sut y mae'n rhaid rhoi'r cynllun pensiwn newydd ar waith[11]. Felly, efallai na fydd effaith lawn y newidiadau hyn i'w theimlo am rai blynyddoedd eto.

***Casgliadau:***

- **Mae gallu'r Gwasanaeth wedi gostwng fymryn, ond nid mor gyflym â nifer y digwyddiadau y mae'n ymateb iddynt.**
- **Mae hyn yn ddarbodus iawn mae'n siŵr, ond gallai greu problemau cyfochrog, yn enwedig i ddiffoddwyr tân y system RDS, sy'n wynebu llai o enillion. Gallai anawsterau wrth eu recriwtio a'u cadw godi amheuaeth ynghylch pa mor gynaliadwy yw gwasanaethau tân ac achub gwledig.**
- **Mae hanes y Gwasanaeth o gadw diffoddwyr tân yn ddiogel yn dal yn gryf. Ond mae angen i'r Awdurdodau barhau i fonitro cyfraddau absenoldebau salwch yn fanwl.**
- **Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag absenoldeb yn gysylltiedig â straen, oherwydd y gallai hwn gynyddu wrth i nifer y digwyddiadau barhau i ostwng.**

[11] Sargeant ac eraill v Yr Ysgrifennydd Cartref ac eraill, (2018) EWCA Civ 2088

**Geirfa**

**Awdurdod(au)** Yr Awdurdodau Tân ac Achub. Y sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tân ac achub mewn ardal benodol.

**Cyd-gyngor Cenedlaethol**. Y corff ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan sy'n negodi cyflogau, telerau ac amodau diffoddwyr tân; mae ei aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr y cyflogwyr ac o'r undebau.

**Cyfwerth ag amser llawn** Lefel y staff wedi ei chyfleu fel nifer o swyddi amser llawn. Er enghraifft, mae dau aelod rhan-amser o'r staff sy'n gweithio hanner oriau amser llawn yn cyfateb i un gweithiwr cyfwerth ag amser llawn.

**Digwyddiad gwasanaeth arbennig** Digwyddiad heblaw tân neu **alwad ddiangen** y mae'r **Gwasanaeth Tân ac Achub** yn ymateb iddo. Er enghraifft, **gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd**, **ymateb meddygol brys**, llifogydd ac achub anifeiliaid.

**Galwad ddiangen** Adroddiad di-sail ynghylch tân. Mae'r rhan fwyaf yn digwydd oherwydd bod **larymau tân awtomatig** wedi gwneud camgymeriad wrth ganfod ac adrodd ynghylch tân. Rhai eraill yw galwadau diangen *didwyll*, sef pan fo rhywun yn dweud bod tân y mae'n credu'n wirioneddol ei fod yn bodoli, ond nad yw'n bodoli; a galwadau diangen *maleisus,* pan fo rhywun yn gwneud 'galwad ffug' yn gwybod nad oes tân yn bodoli.

**Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005**, sy'n llywodraethu diogelwch tân ar safleoedd annomestig.

**Gwasanaeth Tân ac Achub**. Y rhan o'r **Awdurdod Tân ac Achub** sy'n cyflwyno'r gwasanaethau tân ac achub eu hunain, yn wahanol i aelodau'r Awdurdod, staff cymorth ac ati.

**Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffyrdd** Damwain ar ffordd gyhoeddus i un neu ragor o gerbydau.

**Larwm tân awtomatig**. System wedi ei gosod mewn adeiladau annomestig, sy'n rhoi gwybod yn awtomatig i'r Gwasanaeth Tân ac Achub bod amheuaeth o dân; neu larwm sy'n cael ei greu gan system o'r fath. Mae llawer o arwyddion o'r fath yn **alwadau diangen**.

**Llosgi bwriadol** Y drosodd o roi eiddo neu dir ar dân. Gallai llosgi bwriadol fod yn *syml* (wedi ei gynnau er mwyn creu difrod), *diofal* (pryd mae'r llosgwr wedi anwybyddu perygl amlwg i fywyd dynol) neu *gyda bwriad* (pryd mae'r llosgwr wedi bwriadu peryglu bywyd dynol). Y ddedfryd fwyaf yw carchar am oes, er mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol o losgi gyda bwriad y byddai'r ddedfryd hon yn cael ei rhoi.

**Prif dân** Tân difrifol sy'n peryglu bywyd neu eiddo. Yn fanylach, prif dân yw unrhyw dân sydd (a) yn digwydd mewn adeilad nad yw'n adfail ac mewn cerbyd; a/neu (b) yn cynnwys anafusion dynol a/neu achub pobl; a/neu (c) angen i bump neu fwy o beiriannau tân fod yn bresennol.

**Prif swyddog tân**. Y swyddog uchaf ym mhob **Awdurdod Tân ac Achub**, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y **Gwasanaeth Tân ac Achub**.

**Pwyllgor Materion Cenedlaethol**. Y corff a sefydlwyd gan y tri **Awdurdod** yng Nghymru i gydlynu penderfyniadau ar y cyd ac i gaffael ar y cyd, gyda'r bwriad o sicrhau mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd.

**System RDS** System ar ddyletswydd yn ôl y galw. Y trefniant staffio lle mae diffoddwyr tân yn gweithio pan fo angen, sef yn dod o gartref neu o'u lle gwaith arferol yn hytrach nag yn gweithio'n llawn amser. Weithiau, mae diffoddwyr tân y system RDS yn cael eu galw'n ddiffoddwyr 'ar alwad'.

**Tân bwriadol** Tân sy'n cael ei gynnau'n fwriadol. Mae llawer o danau o'r fath yn achosion o **losgi bwriadol**, ond nid pob un. Er enghraifft, mae ffermwyr a thirfeddianwyr yn gallu (yn ôl y gyfraith) cael gwared ar lystyfiant o dir drwy ei roi ar dân ar rai adegau o'r flwyddyn.

**Tân damweiniol** Tân wedi cael ei **achosi** drwy ddamwain. Gall hyn gynnwys gweithredoedd neu anwaith dynol diofal neu esgeulus, nam ar gyfarpar neu gyflenwadau pŵer, neu ffenomenâu naturiol fel mellt.

**Tân damweiniol mewn cartref** Tân domestig sy'n cael ei gynnau drwy ddamwain.

**Tân eilaidd** Unrhyw dân sydd ddim yn **brif dân** nac yn **dân simnai**.

**Tân glaswellt** Term anffurfiol am dân, sydd fel arfer yn **dân bwriadol** yn effeithio ar laswelltir, rhostir neu goedwigoedd agored.

**Tân mewn annedd** Tân sy'n digwydd mewn adeilad sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio fel lle byw parhaol (h.y. ac eithrio gwestai, carafanau symudol, carchardai ac ati).

**Tân simnai** Tân sydd wedi cael ei gyfyngu i simnai neu ffliw domestig neu annomestig. Os yw'r tân yn lledu y tu hwnt i'r gofod hwn i weddill yr adeilad, mae'n troi'n **brif dân**.

**Tarddiad** Lleoliad neu wrthrych lle mae tân wedi cychwyn. Ni ddylid drysu rhwng hyn a'r **hyn a achosodd y tân**. Er enghraifft, gallai popty fod yn darddiad tân, ond gallai'r hyn achosodd y tân fod yn unigolyn yn cael ei lygad-dynnu wrth goginio ac yn gadael i'r bwyd fynd ar dân, neu nam ar y popty ei hun.

**Ymateb meddygol brys** Criwiau tân yn ymateb i argyfyngau meddygol heblaw rhai a achoswyd gan dân.

**Yr hyn achosodd y tân** Y rheswm pam mae tân wedi cychwyn – er enghraifft, nam trydanol neu rywun yn taflu sigarét. Ni ddylid drysu rhwng hyn a'r **tarddiad**.

**Ystafell lle cychwynnodd y tân** Y gofod mewn adeilad lle mae **tarddiad** y tân. Mae hyn yn cynnwys ystafelloedd yn yr ystyr arferol, yn ogystal â grisiau a landin, atig, nenfwd a gwagle dan do, selerydd, ac adeileddau eraill fel garej a gweithdy, os ydynt yn sownd wrth yr adeilad a bod modd mynd iddynt o'r tu mewn.

**Ystafell reoli** Cyfleuster sydd gan **Gwasanaeth Tân ac Achub** ar gyfer derbyn galwadau 999 ac anfon criwiau a pheiriannau priodol at ddigwyddiad.